



POLISI CYFLE CYFARTAL

Nodau:

1. Datblygu disgyblion heb ganiatáu i'w rhyw, hil neu unrhyw nodweddion personol eraill fod yn rhwystr i hynny.
2. Cyflogi unigolion heb ganiatáu i'w rhyw, hil neu unrhyw nodweddion personol eraill fod yn rhwystr i hynny.

Amcanion:

1. Darparu cydraddoldeb cyfle yn yr ysgol i ddisgyblion a staff, dysgu ac atodol.
2. Datblygu cydraddoldeb cyfle a pharch yn yr ysgol rhwng bechgyn a genethod, rhwng oedolion, rhwng plant ac oedolion a'r gwrthwyneb.
3. Ehangu gorwelion bechgyn a genethod drwy greu amgylchedd lle na cheir gwahaniaethu ar sail rhyw a lle herir ystradebau traddodiadol.

Canllawiau:

1. Mae hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ferched a bechgyn a chael gwared o ragdybiaethau yn seiliedig ar eu rhyw yn bwysig gan nad yw genethod yn cael cyfle i chwarae gyda theganau mecanyddol yn y cartref na'r bechgyn yn cael cyfle i chwarae gyda doliau chwaith.
2. Ni wahaniaethir yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn ol rhyw, hil neu unrhyw nodweddion personol yn Ysgol Waunfawr.
3. Ni ddylai'r athrawon na'r staff atodol gael disgwyliadau gwahanol i ferched a bechgyn, yn enwedig felly yn y pynciau traddodiadol oedd yn ffafrio un rhyw uwch na'r llall megis coginio, technoleg a.y.y.b.
4. Mae'n anghyfreithlon ym Mhrydain Fawr i wahaniaethu o ran rhyw pan yn penodi, diswyddo neu'n dyrchafu swyddi.

Casgliadau:

1. Mae hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ferched a bechgyn a chael gwared o ragdybiaethau yn seiliedig ar eu rhyw yn bwysig.
2. Mae ystrydebu yn tueddu i gyfyngu ar ddewisiadau unigolion am nad yw'r rheini'n cydymffurfio a disgwyliadau pobl eraill.
3. Mae dyfodiad y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi helpu dileu gwahaniaethu ar sail rhyw o fewn y cwricwlwm.

Rhaid sicrhau y glynir wrth yr Erthyglau Llywodraethu a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 pan yn penodi swyddi.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol: Rhag 9 fed 2002

Adolygwyd : 10-5-07

Adolygwyd 9-3-11

Adolygwyd 12-1-12

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: Mehefin 2015